

Hydref 2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llwybr Newydd i Natur

Cynllun Gweithredu Adfer Natur Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru

# Rhagair

## Y Dirprwy Weinidog



**Lee Waters AS**

Y Dirprwy Weinidog
Newid Hinsawdd

Rydym yn wynebu Argyfwng Natur gyda dirywiad cyfartalog o 20% yn ein rhywogaethau brodorol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf yn unig; ac ar hyn o bryd mae un o bob chwe rhywogaeth mewn perygl o ddiflannu o Gymru yn llwyr. Er gwaethaf cynnydd yn ein hymdrechion o ran cadwraeth, mae'r tueddiadau cyffredinol yn dal i fod yn negyddol ac mae ein bywyd gwyllt a'r cynefinoedd y maent yn dibynnu arnynt yn cael eu bygwth gan lawer o bwysau, yn enwedig hinsawdd sy'n newid yn gyflym. Wrth i'n hymwybyddiaeth o'r materion hyn barhau i gynyddu, nawr yw'r amser i weithredu. Rydym eisoes wedi rhoi ar waith lawer o'r ddeddfwriaeth a'r polisïau angenrheidiol er mwyn gwneud y newidiadau hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, ac i ddiogelu ein natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nawr mae'n rhaid i bawb gydnabod a chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu ein hamgylchedd a helpu natur i adfer.

Pan gyhoeddwyd Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn 2021, ymrwymwyd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau trwy weithrediadau trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith. Dim ond ers 2021 y mae'r angen am y gweithredu hwn wedi dod yn gliriach, gyda chanlyniadau Adolygiad Ffyrdd Llywodraeth Cymru a Chynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP 15).

Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng Nghymru yw un o'r asedau cenedlaethol pwysicaf sydd gennym. Mae'r ffyrdd yn darparu cysylltiadau hanfodol i bobl Cymru a'n heconomi, ac mae'r milltiroedd niferus o wrychoedd, y glaswelltiroedd a'r coetiroedd glan y ffordd yn creu cysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt trwy ein tirweddau hefyd. Rhaid i'r gwaith o weithredu, cynnal a gwella'r Rhwydwaith i bobl beidio â dod ar draul ein hamgylchedd mwyach. Yn hytrach, dylai gael ei gydnabod fel cyfle i weithio gyda natur i ddarparu buddion i bawb, nawr ac yn y dyfodol. Ni allwn weithredu ar ein pennau ein hunain gan fod y Rhwydwaith wedi'i gysylltu â thirwedd ehangach Cymru a'r rhwydweithiau ecolegol y mae'n eu cynnwys. Rhaid inni ddatblygu ein gwaith gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, gan gryfhau ein cysylltiadau a chydweithio i gyflawni dros natur yng Nghymru.

Rwy'n falch o lansio Llwybr Newydd i Natur – y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru. Mae'r cynllun hwn yn tynnu sylw at y ffordd yr ydym yn meddwl am natur, yn cynllunio ac yn cyflawni ar ei gyfer, gan sbarduno newid sylweddol yn ein gwaith dros fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar ystad y Rhwydwaith ledled Cymru. Bydd yn ymgorffori camau gweithredu i ddiogelu a gwella natur fel egwyddor graidd ym mhob agwedd ar ein gwaith.

# Cyflwyniad

Mae'r term 'bioamrywiaeth' yn disgrifio amrywiaeth bywyd yn ei gyflawnder – yr amrywiaeth o fewn rhywogaeth a rhwng rhywogaethau a'r cymhlethdodau ecolegol y mae'r rhywogaethau hynny'n eu creu. Gellir edrych arni ar unrhyw raddfa: bioamrywiaeth y ddaear, bioamrywiaeth Cymru, bioamrywiaeth tirwedd neu fioamrywiaeth safle. Y we o ryngweithiau rhwng organebau byw a'u hamgylchedd sy'n cynnal bywyd, gan gynnwys ein bywydau ni. Yr ecosystemau hyn sy'n rheoli'n hinsawdd, yn darparu'n bwyd a dŵr glân a'r ocsigen rydym yn ei anadlu, ac sy'n cynnal y byd fel y gwn ni amdano.

Mae'r fioamrywiaeth mewn ecosystem yn dibynnu'n drwm ar gyflwr a maint yr ecosystem a'i chysylltiad ag ecosystemau eraill. Mae ecosystem ynysig ac sydd wedi crebachu o ran ei maint a'i bioamrywiaeth, yn fregus ac yn sensitif i newid. Ni allwn ddibynnu arni i ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom. Gyda'r hinsawdd yn newid yn gyflym, mae'n hynod bwysig sicrhau bod ein hecosystemau yn gallu dygymod cystal â phosib â newidiadau yn y dyfodol. Mae mesurau felly i wella cyflwr cynefinoedd a'u gwneud yn fwy a gwella'u cysylltedd yn cynyddu eu bioamrywiaeth a gallu'r ecosystem i wynebu heriau'r dyfodol.

Mae bioamrywiaeth trwy'r byd yn dirywio, ac felly hefyd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn Argyfwng Hinsawdd a Natur i danlinellu difrifoldeb y newid yn yr hinsawdd a'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'u cysylltiad â'i gilydd, ac i ganolbwyntio ymdrechion i ddelio â'r ddau. Trwy adfer bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau, gallwn leihau effeithiau newid hinsawdd a chadw manteision bioamrywiaeth er lles cenedlaethau heddiw ac yfory.

Mae Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am redeg, cynnal a gwella'r rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, sef y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol fel y'i gelwir.


Mae Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i **"gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy weithrediadau trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith."**

Mae Llwybr Newydd i Natur, Cynllun Gweithredu ar gyfer Adfer Natur ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol wedi cael ei ddatblygu i ategu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ac i nodi'r hyn a wnawn i wireddu'r amcanion, y blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ynddi. Bydd y Llwybr Newydd i Natur yn rhoi'r argymhellion a wnaed gan y Panel Adolygu Ffyrdd yn ei gyngor ar Ddyfodol Buddsoddiad Ffyrdd Yng Nghymru ynghylch bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar waith.



**Mae Llwybr Newydd i Natur wedi'i ddatblygu hefyd i ysgwyddo'r ymrwymiadau a'r gofynion cyfreithiol yn y canlynol:**

- Mae Rhaglen Lywodraethu 2021: Diweddariad yn dangos yn glir bod taclo'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i Weinidogion Cymru, gan gynnwys "Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn".
- Mae'r Cytundeb Cydweithio yn ategu blaenoriaeth y Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys y datganiad "Rydym wedi ymrwymo i adfer bioamrywiaeth ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd mewn amgylcheddau ar y tir ac ar y môr."
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Trwy helpu natur i ymadfer, cyfrennir at nifer o amcanion llesiant y Ddeddf, yn enwedig amcan 'Cymru Gydnerth'.
- Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) y ddyletswydd o ran bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau – yn gorfodi awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) i gynnal a gwella bioamrywiaeth i'r graddau bod hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol a thrwy wneud, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur - ein Strategaeth ar gyfer Natur yng Nghymru – cynllun ar lefel Cymru gyfan i bawb sy'n gysylltiedig â gweithredu dros fioamrywiaeth yng Nghymru, gan osod amcanion i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth a chefnogi ei hadferiad.



# Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

## Ein gwaith ni

Mae dros 75 milltir o draffyrdd a thros 1000 o filltiroedd o gefnffyrdd un a dwy lôn gerbyd ledled Cymru yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Dyna 5% o holl ffyrdd Cymru ond mae dros draean o draffig Cymru yn teithio ar y Rhwydwaith felly mae'r gwaith o redeg, cynnal a chadw a gwella'r rhwydwaith yn waith hanfodol.

Mae darnau sylweddol o dir yn perthyn i'r Rhwydwaith gan gynnwys glaswelltir, gweundir, coed a phrysgwydd, cefnau creigiog, cyrsiau dŵr, llynnoedd a gwlypdir sy'n estyn weithiau degau o fetrau o'r ffordd ei hun. Yr 'Ystâd Feddal' yw ein henw ar y tir hwn ac cheir ynddo amrywiaeth o gynefinoedd sy'n cynnal amrywiaeth eang o fywyd natur.

Wrth ofalu am ein Hystâd Feddal, ein nod yw cynnal a gwella'r cynefinoedd hynny er lles eu bioamrywiaeth ond gan wneud dyletswydd Llywodraeth Cymru hefyd o gadw defnyddwyr ein ffyrdd yn ddiogel. Mae'r gwaith rheoli hwnnw hefyd yn ystyried y pethau eraill y mae'r ystâd feddal yn eu darparu neu wedi'i dylunio ar eu cyfer, fel sgrinio gweledol, mynediad a integreiddio'r ffordd a'r tirlun o'i chwmpas.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn gweithio i wella gwerth bioamrywiaeth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol. Sail y gwaith hwnnw o 2004 a 2014 ac wedi hynny oedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystâd Cefnffyrdd. Ers ei gwbhau, rydym wedi parhau i gymryd camau positif er lles bioamrywiaeth trwy ein menter Coridorau Gwyrdd.



### Mae'n gwaith hyd yma wedi cynnwys nifer o brosiectau:

- Diogelu safleoedd dynodedig, a rhywogaethau a chynefinoedd pwysig iawn i gadwraeth natur;
- adfer a gwella cynefinoedd sy'n bod eisoes, fel plannu blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd i gynyddu bioamrywiaeth.
- Creu cynefinoedd newydd, o werth mwy i fioamrywiaeth, fel plannu coed a llwyni brodorol i gynyddu'r gorchudd coed a gwella cysylltedd.
- Gwella cyfleoedd i anifeiliaid groesi ffyrdd a lleihau'r nifer sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd.
- Ffrwyno rhywogaethau estron goresgynnol.

## Sut ydyn ni'n gweithio


Llywodraeth Cymru yw Awdurdod Priffyrdd Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru. Mae'n datblygu polisïau a safonau ar gyfer rhaglenni gweithredu, cynnal a chadw, gwella a chynllunio i sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel ac yn ateb eu diben. Gall gwelliannau amrywio o newidiadau cymharol fach i ddyluniad ffordd neu adnewyddu asedau i gynlluniau mawr fel adeiladu ffyrdd newydd.

Dwy asiant sector cyhoeddus sy'n rhedeg, cynnal a chadw a mân wella'r rhwydwaith o ddydd i ddydd ar ran Llywodraeth Cymru, sef Asiant Cefnffyrdd De Cymru ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru gan ddefnyddio cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus a phreifat.

Mae gwelliannau mawr i'r rhwydwaith yn cael eu comisiynu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio ymgynghorwyr a chontractwyr o'r sector preifat.

Rydym yn cydweithio lle gallwn; gan ymgynghori a chyd-ddarparu â nifer o bartneriaid, gan gynnwys perchenogion tir preifat, awdurdodau lleol a mudiadau cadwraeth natur.

**CYMRU**
ASIANTAU CEFNFFYRDD



# Bioamrywiaeth ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Gellir rhannu gwerth presennol a phosib bioamrywiaeth y Rhwydwaith, ac effaith y Rhwydwaith arni, yn nifer o gategorïau:

## Gwerth Bioamrywiaeth yr Ystâd Feddal

Dros Gymru gyfan, mae Ystâd Feddal y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn rhyw 3,100 o hectarau o faint ac yn pasio trwy amrywiaeth o dirweddau a chynefinoedd. Mae llawer o'r Ystâd Feddal yn rhimynnau cul o laswelltir, perthi (gwrychoedd), prysgwydd a choetir ar ymyl y ffordd. Ond ceir darnau helaethach o dir wrth gyfnewidfeydd mawr neu lle defnyddir tir i leihau'r effaith ar yr amgylchedd, i wneud iawn am dir a gollwyd neu yn sgil ynysu tir. Mae mwy a mwy yn gweld gwerth yr Ystâd Feddal (ei gwir werth a'i photensial) i natur ac mae dulliau rheoli'n cael eu newid i gynyddu'r gwerth hwnnw.

## Gwerth strwythurau caled i fioamrywiaeth

Mae adeiladau ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn gartref i adar sy'n nythu ac i ystlumod sy'n clwydo, gan gynnwys yr ystlumod pedol lleiaf sy'n clwydo o dan rai o'n pontydd. Gall adeilad fod yn addas i fywyd gwyllt trwy ddamwain neu drwy fwriad.

## Gwerth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yng nghyd-destun rhwydweithiau ecolegol eraill Cymru

Ar lefel tirwedd, mae'r Rhwydwaith yn gallu atal a chreu cysylltiadau i fioamrywiaeth. Mae natur linellog y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn golygu ei fod yn gallu creu cysylltiadau i fywyd gwyllt, yn ogystal ag i bobl. Gall darnau llinellog o goetir, prysgwydd, glaswelltir a nodweddion dŵr sy'n ffurfio'r Ystâd Feddal gysylltu â lleiniau gwasgarog o gynefinoedd tebyg yn y dirwedd, gan greu coridor i rywogaethau symud a lledaenu. Gall hynny fod o fudd i fioamrywiaeth ac er mwyn addasu i'r newid yn



yr hinsawdd, ond mae perygl iddo hefyd helpu rhywogaethau a phathogenau estron goresgynnol i ledaenu. Un pathogen sydd wedi cael effaith fawr yn ddiweddar yw Hymenoscyphus fraxineus sy'n achosi Clefyd y Coed Ynn.

Gall y coridor ffyrdd ei hun fod yn rhwystr i fywyd gwyllt, gan ddarnio cynefinoedd a sianelu cyrsiau dŵr trwy strwythurau na all organebau fynd trwyddynt yn ogystal â gwaethygu llifogydd. Mae ffosydd a phontydd yn cael eu dylunio'n well erbyn hyn fel nad ydyn nhw'n rhwystro rhywogaethau a'u bod yn eu helpu i basio'n ddiogel o dan y traffig a rhwystrau ffisegol. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod ein strwythurau croesi presennol at ddefnydd bywyd gwyllt yn effeithiol ond gwelwyd bod "pontydd gwyrdd" fel y'u gelwir yn helpu anifeiliaid i groesi ffyrdd prysur yn ddiogel.

## Cylch dylanwad y Rhwydwaith

Mae cerbydau sy'n teithio ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cynhyrchu llygredd sy'n cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth. Mae nifer o fesurau'n cael eu defnyddio ar y Rhwydwaith i leihau, amgáu a dileu llygredd. Bydd y mesurau i ddatgarboneiddio Cymru'n dechrau lleihau lefelau rhai llygreddau yn yr aer. Ond mae angen nifer o atebion o hyd i leihau effaith traffig ymhellach ar y fioamrywiaeth o gwmpas.

I gynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, rhaid wrth lawer o ynni a deunydd crai. Mae'r dewisiadau dylunio a chaffael a wneir gan ac ar ran Llywodraeth Cymru yn cael effaith anuniongyrchol ar fioamrywiaeth trwy gadwyni cyflenwi'r deunyddiau hynny.

Ambell waith, gall yr effeithiau hynny fod yn fwy nag effaith gwneud y gwaith ei hun. Bydd y profion a argymhellwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd y dylai cynlluniau ffyrdd newydd eu bodloni yn golygu rhoi mwy o ystyriaeth i effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y dyluniadau a ddewisir ar gyfer prosiectau gwella ffyrdd ar y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd. Rhaid i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol gydymffurfio hefyd â pholisïau caffael Llywodraeth Cymru sydd ar wefan LLYW.CYMRU.



# Llwybr Newydd i Natur

### Beth yw ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Adfer Natur

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i sicrhau bod ein gwaith yn arwain at ei gwella. Mae Llwybr Newydd i Natur yn esbonio sut y byddwn yn cyfrannu at yr ymrwymiad hwn trwy redeg, rheoli a gwella Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru. Mae'r Cynllun yn disgrifio'n hamcanion a'n blaenoriaethau ar gyfer gwella gwerth bioamrywiaeth y Rhwydwaith a'r hyn a wnawn i gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r Llwybr Newydd i Natur yn disgrifio'r nodau cyffredinol rydym wedi'u gosod a'r camau byddwn yn eu cymryd i'r gyflawni'r nodau hynny. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio traciwr byw i gofnodi'r gwaith mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid wrth i ni fireinio'n cynllun, pennu'r targedau a gweithredu.

### Pwy fydd yn defnyddio'r Llwybr Newydd i Natur a sut

Is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru fydd yn cyhoeddi ac yn diweddaru'r Llwybr Newydd i Natur, ond bydd yn cofnodi'r gwaith y byddwn yn ei wneud ar y cyd â'n rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru.
- Adrannau eraill Llywodraeth Cymru, trwy'r Tasglu Bioamrywiaeth sy'n gweithio ar draws nifer o adrannau.
- Asiantau'r Cefnffyrdd a'r cadwyni cyflenwi ar gyfer rheoli a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, gan gynnwys ymgynghorwyr, contractwyr ac awdurdodau partner lleol.
- Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau priffyrdd strategol a seilwaith llinellol eraill.
- Awdurdodau lleol a chynghorau cymuned.
- Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Thrydydd partïon perthnasol eraill, gan gynnwys mudiadau cadwraeth natur, grwpiau cymunedol a gwirfoddol, cyrff ymchwil a sefydliadau addysg.

Bydd Llwybr Newydd i Natur yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar lefel strategol i gyfathrebu'n hamcanion, yn fewnol ac yn allanol, ac fel canllaw i bawb sy'n gysylltiedig â rheoli a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, o'r rheolwyr strategol i'r gweithwyr ar lawr gwlad. Bydd yn ein gwneud yn atebol i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid o ran rheoli bioamrywiaeth ar ein Rhwydwaith.

### Ein huchelgais

Trwy ein gweithredoedd wrth redeg, gwella a rheoli'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, byddwn yn dangos ein bod yn dal i reoli er lles bioamrywiaeth ac i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd ar y naill law ac yn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ar y llall.

### Ein hymrwymiad

Yn unol ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) – y ddyletswydd am fioamrywiaeth – rhaid i'n gwaith yn y dyfodol sicrhau budd net i fioamrywiaeth trwy gynnal a chyfoethogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Byddwn yn mynd i'r afael â'r effeithiau negyddol y mae ffyrdd yn eu cael ac wedi'u cael ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau gan wneud mwy na lleddfu effeithiau er mwyn cynyddu gwerth bioamrywiaeth ein hystâd a'i gallu i wrthsefyll newid yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'n hamcanion, ein blaenoriaethau a'n gweithredoedd yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn parhau'n seiliedig ar yr wybodaeth, deddfwriaeth, polisi a'r arweiniad diweddaraf. .

**Trwy'r gweithredoedd a ddisgrifir yn Llwybr Newydd i Natur, byddwn yn cymryd camau i:**

**1.** Ymgorffori bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ym mhob penderfyniad wrth redeg, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a defnyddio'n dylanwad i annog cyrff eraill i wneud yn yr un modd.

**2.** Deall yn well effeithiau anuniongyrchol ein gweithgareddau caffael ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yng Nghymru a thrwy'r byd, a lleihau'r effeithiau hynny.

**3.** Gwella'r ffordd yr ydym yn monitro ac yn cofnodi bioamrywiaeth ein Hystâd Feddal er lles ein penderfyniadau rheoli a chyllido ar gyfer cyfoethogi bioamrywiaeth.

**4.** Defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i wella gallu seilwaith y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, i leddfu'r newid yn yr hinsawdd ac i ddarparu ystod o wasanaethau a manteision ecosystem.

**5.** Cynnal mesurau creu ac adfywio cynefinoedd er mwyn gwella'u cysylltedd a chyfrannu at rwydweithiau ecolegol Cymru ar raddfa tirwedd, yn ogystal â diogelu a chynnal safleoedd dynodedig a chynefinoedd a rhywogaethau Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

**6.** Ymgorffori rhagdybiaeth yn erbyn colli neu ddirywio cynefinoedd Adran 7 neu gynefinoedd na ellir eu hailgreu ar ôl eu colli, gan gynnwys cynefinoedd heb flaenoriaeth sy'n cynnal rhywogaethau Adran 7.

**7.** Sicrhau bod mesurau lleddfu priodol yn cael eu rhoi yn eu lle a bod camau digolledu a gwelliannau yn cael eu cymryd lle na ellir osgoi colledion.

**8.** Sicrhau nad yw prosiectau gwella ffyrdd yn darnio poblogaethau a lle bo ffyrdd yn torri'r cysylltedd rhwng poblogaethau, bod camau'n cael eu cymryd i wella'r cysylltedd hwnnw.


**9.** Lleihau nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar y ffyrdd (er enghraifft moch daear, dyfrgwn, ystlumod, amffibiaid ac adar).

**10.** Datblygu dulliau amgen i reoli chwyn er mwyn lleihau'r defnydd o chwynladdwyr a rhoi'r gorau i'w defnyddio'n llwyr yn y pen draw.

**11.** Lleihau llygredd newydd a hanesyddol, gan gynnwys sbwriel, cemegau, gronynnau, goleuni a sŵn, llygredd aer, dŵr a thir.

**12.** Darganfod, monitro a rheoli rhywogaethau a phathogenau estron goresgynnol yn well.




## Ein blaenoriaethau

I wireddu ein huchelgais a’n hymrwymiadau, byddwn yn defnyddio’r pum blaenoriaeth canlynol.

### 1. Ystyried bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ym mhob penderfyniad ac wrth wneud pob peth.

O reoli tir a chontractau i adeiladu ffyrdd newydd, mae penderfyniadau a gweithredoedd pawb sydd ynghlwm wrth reoli’r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn effeithio ar yr ystâd a’r dirwedd o’i chwmpas. Er mwyn i natur ymadfer a ffynnu, rhaid i bawb ddeall yr effaith honno a cheisio gwneud newidiadau er gwell. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod pawb sy’n gysylltiedig â rheoli’r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn deall sut mae eu gwaith yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol a’r hyn a ddisgwylir ganddynt o dan ddeddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

### 2. Deall yn well gwerth bioamrywiaeth y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a nodi cyfleoedd i’w wella.

Rhaid i ni ddeall cyflwr hanesyddol a phresennol ein hystâd a’r dirwedd ehangach y mae’n rhyngweithio â hi fel bod y mesurau yr ydym yn eu dylunio i’w diogelu a’u gwella yn effeithiol ac yn gydnerth dros y tymor hwy. Byddwn yn gweithio ar y cyd i sicrhau’n bod yn asesu’r amodau llinell sylfaen ac effeithiau posibl a gwirioneddol y mesurau a ddarparwn mewn ffordd gadarn, cywir a chyson.

### 3. Sicrhau bod yr effeithiau ar fioamrywiaeth na allwn eu hosgoi yn cael eu hasesu’n gywir a bod y gwelliannau a’r mesurau lleddfu rydym yn eu darparu yn effeithiol a chydnerth.

Er mwyn sicrhau bod yr hyn a wnawn er lles bioamrywiaeth yn briodol ac yn effeithiol, mae’n hanfodol cynnal asesiadau trylwyr a chadarn o’i effaith ar ddechrau prosiect a’i gwerthuso gydol cylch bywyd y prosiect. Mae’n hanfodol ystyried yn gynnar sut i osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth a pha fanteision y gellir eu cael er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau. Gall sefydlu rhai cynefinoedd allweddol gymryd sawl degawd felly mae angen i’r ystyriaethau a’r ymrwymiadau ymestyn ymhell y tu hwnt i’r cyfnod o ymyrraeth uniongyrchol, neu gyfnod adeiladu prosiect o welliannau.

### 4. Creu rhaglen uchelgeisiol o weithredoedd a mesurau rheoli bioamrywiaeth ar draws y rhwydwaith bob blwyddyn

Byddwn yn gweithio’n ddi-dor i ehangu a gwella ein cefnogaeth i fioamrywiaeth ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac yn y tirweddau y mae’n mynd drwyddynt.
Mae gwelliannau eisoes wedi’u gwneud i fioamrywiaeth ar draws ystâd y Rhwydwaith ac fel rhan o brosiectau seilwaith newydd. Fodd bynnag, mae pwysau parhaus ar ystâd y Rhwydwaith a all arwain at golli a dirywio cynefinoedd gwerthfawr o ran eu bioamrywiaeth. Byddwn yn ceisio lleihau’r effeithiau negyddol hyn wrth i ni wella ein ffyrdd o weithio a’n hymdrechion i daclo’r argyfwng natur.

## 5. Gweithio gydag eraill a bod yn atebol

Byddwn yn gweithio ar y cyd ac mewn ffordd dryloyw i wireddu'n nodau o ran bioamrywiaeth a lleddfu newid hinsawdd a bod yn gydnerth. Mae'r argyfwng bioamrywiaeth yn fygythiad ledled y byd ac mae'n cydblethu â phryderon iechyd a chymdeithasol eraill, ac ni ellir datrys yr un ohonynt ar eu pen eu hunain. Yn yr un modd, er mwyn i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol sicrhau'r manteision mwyaf posibl i fioamrywiaeth, ni allwn ganolbwyntio ar yr Ystâd Feddal yn unig ond rhaid ystyried y dirwedd ehangach.

Mae cydweithio'n agos ag ystod eang o randdeiliaid yn hanfodol i gyflawni ein nodau.

Byddwn ni'n:

- Gweithio gyda'n cymdogion i greu rhwydweithiau ecolegol sy'n cysylltu â'i gilydd.
- Gweithio gyda chymunedau lleol a chyrff amgylcheddol a'u cefnogi i sicrhau atebion ymarferol ac amlbwrpas a rheoli ein hasedau i sicrhau'r canlyniadau gorau.
- Gweithio gyda sefydliadau addysgol ac ymchwil a'u cefnogi i wella ein dealltwriaeth a'n sylfaen o wybodaeth.
- Gweithio gyda rheoleiddwyr a'r sector amgylcheddol i fod yn atebol ac i fod yn gyson ag eraill.

## Ein Cynllun Gweithredu

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Adfer Natur isod yn disgrifio'r nodau cyffredinol rydym wedi'u gosod a'r camau byddwn yn eu cymryd i'w gyflawni. Defnyddir traciwr gweithredu byw i gofnodi datblygiad y gweithredoedd hyn.



## Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

| | Nodau | Gweithredoedd | Wedi'u cysylltu â blaenoriaeth | Dechrau | Cwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| A | Helpu is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru a'n cadwyn gyflenwi i ddeall bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ac i ddod yn fwy gwybodus amdanynt | Datblygu a chynnal hyfforddiant priodol ym meysydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ar gyfer penderfynwyr ar bob lefel o fewn is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru. | 1 | 2022 | 2024 |
| | | Datblygu canolfan hyfforddi ac adnoddau canolog i'w defnyddio gan staff Llywodraeth Cymru fel un lle i gael gwybodaeth am fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ac am fesurau lleddfu a gwella. | 1, 3 | 2023 | 2024 |
| | | Creu cymuned o ecolegwyr i hwyluso rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws y diwydiant. | 1, 2, 3, 4, 5 | 2023 | 2024 |
| | | Hwyluso mesurau adeiladu capasiti ar gyfer amgylcheddwyr proffesiynol yn y diwydiant priffyrdd gan gynnwys gofynion ar ein cadwyn gyflenwi i gefnogi hyfforddiant, cynlluniau prentisiaeth, datblygu proffesiynol a gweithio gyda sefydliadau addysgol ac ymchwil. | 1, 3, 5 | 2023 | Yn mynd rhagddo |
| B | Diffinio ffordd benodol i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol asesu a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yng Nghymru, sy'n cymhwyso gofynion deddfwriaethol a pholisi ar gyfer ein gwaith. | Cydweithio i baratoi canllawiau sy'n nodi dulliau, targedau a mesurau i'r rheini sy'n ymwneud â rhedeg, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i roi'r ffordd hon o asesu a gwella ar waith mewn ffordd gyson. | 2, 3, 4 | 2023 | 2024 |
| | | Datblygu arfau casglu data a mesur newid yng ngwerth bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau er mwyn helpu i roi'r ffordd hon o weithio ar waith. | 2, 3, 5 | 2023 | 2025 |
| | | Datblygu system ar gyfer mapio'n cronfa ddata, gan ddefnyddio'n data ein hunain a gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill am y dirwedd ehangach. | 2, 3, 4, 5 | 2023 | 2024 |
| | | Paratoi canllawiau newydd sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer datblygiadau sy'n ffinio â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol i asesu, diogelu a gwella cynefinoedd bioamrywiol ar yr Ystâd Feddal, gan ddefnyddio rôl is-adran Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru fel ymgynghorai ar benderfyniadau cynllunio i bwyso am ganlyniadau gwell i fioamrywiaeth. | 1, 5 | 2023 | 2024 |

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (parhad)

| | Nodau | Gweithredoedd | Wedi'u cysylltu â blaenoriaeth | Dechrau | Cwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C | Adolygu a diwygio neu ategu'r canllawiau a'r safonau ar gyfer cynnal a chadw a dylunio ffyrdd, yn ogystal â chwmpas contractau a phrosiectau Llywodraeth Cymru er mwyn ymgorffori a hyrwyddo bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ym mhob rhan o redeg, cynnal a chadw a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | Adolygu a diwygio neu ategu canllawiau a safonau perthnasol, yn bennaf Llawlyfr Cynnal a Cadw Cefnffyrdd a Chanllaw Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i bennu targedau uchelgeisiol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ddechrau prosiectau cynnal a chadw a gwella. | 1, 2, 3, 5 | 2022 | 2025 |
| | | Adolygu a diwygio cynlluniau a chwmpas contractau a phrosiectau Llywodraeth Cymru fel eu bod yn cynnwys mesurau a thargedau priodol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau fel rhan o'r broses o'u cynnal. | 1, 3, 4, 5 | 2023 | 2025 |
| | | Creu cylch ar gyfer adolygu pob dogfen i sicrhau ei bod yn gyfoes. | 2, 3 | 2023 | 2025 |
| | | Ymchwilio i fecanweithiau mwy tymor hir ar gyfer cyllido mesurau er lles bioamrywiaeth y tu hwnt i oes arferol prosiectau. | 3, 4, 5 | 2023 | Yn mynd rhagddo |
| | | Datblygu proses ar gyfer archwilio bioamrywiaeth i fonitro effeithiau a mesurau lleddfu a gwella ym mhob rhan o'n gwaith. | 1, 2, 4, 5 | 2023 | Yn mynd rhagddo |
| | | Adolygu sut y gall Llywodraeth Cymru gydnabod canlyniadau gwell i fioamrywiaeth trwy dystysgrifau amgylcheddol ac ystyried a fyddai newidiadau'n sbarduno gwelliannau. | 1, 2, 3, 4, 5 | 2023 | 2024 |

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (parhad)

| | Nodau | Gweithredoedd | Wedi'u cysylltu â blaenoriaeth | Dechrau | Cwblhau erbyn |
|---|---|---|---|---|---|
| D | Cynnal rhaglen waith uchelgeisiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. | Creu fforymau priodol i drafod ag amrywiaeth o randdeiliaid fel rhan o'r broses ddi-dor o ddatblygu Llwybr Newydd i Natur a'i roi ar waith. | 1, 2, 3, 4, 5 | 2023 | 2024 |
| | | Defnyddio'r dulliau casglu data, mesur a mapio a ddatblygwyd o dan Weithred B i nodi cyfleoedd i sicrhau gwelliannau ystyrlon i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau trwy brosiectau ar ystâd y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ac o'i chwmpas. | 2, 3, 4, 5 | 2024 | Yn mynd rhagddo |
| | | Sefydlu'r egwyddor o reoli asedau bioamrywiaeth yn y ffordd orau bosibl, gan gynnwys mecanweithiau i hwyluso gweithredu y tu hwnt i'n hystâd a chaniatáu i drydydd partïon fel awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol neu fudiadau cadwraethol wneud y gwaith rheoli lle bo gofyn. | 1, 3, 4, 5 | 2024 | Yn mynd rhagddo |
| E | Paratoi adroddiadau tryloyw ar ein gwaith, gwella ein ffordd o weithio a dathlu'n llwyddiannau | Datblygu strategaeth adrodd fewnol ac allanol gadarn ar y ffordd o weithio a ddisgrifir yng Ngweithred B, sy'n gyson ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cadwraeth ehangach. | 1, 3, 4, 5 | 2024 | Yn mynd rhagddo |
| | | Datblygu cynllun cyfathrebu effeithiol fel bod Llywodraeth Cymru'n dathlu ei gwaith gyda bioamrywiaeth ac yn rhannu gwersi ac arferion da â phob parti perthnasol. | 1, 5 | 2023 | Yn mynd rhagddo |

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47354, ISBN digidol 978-1-83504-916-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg